Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2008/9

Apêl De Affrica

Tudalen stori 3 – Hyder

Mae'r wraig hon – nad oedd am inni roi ei henw na dangos ei hwyneb – yn HIV positif. Mae **Wola Nani** wedi ei hyfforddi i wneud y bowlenni papier mâché yma o hen bapur. Mae'r bowlenni'n gwerthu'n dda yn ne Affrica a thramor gan sicrhau incwm i wragedd tebyg iddi hi. Mae llawer o'n heglwysi yn defnyddio'r bowlenni yma fel ffocws i'w cyfrannu eleni. Mae Wola Nani hefyd yn ymladd yn erbyn yr ofn a'r stigma ofnadwy sy'n dal i berthyn i HIV.

Mae Diwrnod AIDS y Byd – 1 Rhagfyr 2008 – yn ddydd Llun ac fe gaiff ei nodi gan eglwysi o amgylch y byd ar ddydd Sul 30ain Tachwedd.

Yn storïau eraill ein hapêl, yr ydym wedi dewis un gair i grynhoi stori bywyd y bobl y byddwn yn dysgu amdanynt. Maent yn eiriau sy'n cyfleu ein dyheadau ni hefyd – bod yn ddewr neu angerddol, amyneddgar neu faddeugar. Mae'r stori hon yn wahanol – yr ydym yn sôn, yn hytrach, am sut y dylai pethau fod a'n gobaith y gallent fod felly rhyw ddydd.

Ni all Miriam (nid ei henw go iawn) fod yn ddigon hyderus eto i ganiatáu i'w hwyneb gael ei ddangos na rhoi ei henw go iawn. Ni all fod yn hyderus y byddai ei chymdogion yn ei thrin fel pawb arall tase nhw'n gwybod ei bod hi â HIV. Ni all fod yn hyderus na fyddai'n cael ei gwrthod a'i heithrio. Mae Wola Nani yn gweithio i newid hyn er mwyn iddi hi ryw ddydd fod yn ddigon hyderus i ddatgelu ei statws a'i henw.

Dywed Miriam: 'Pan es at Wola Nani doeddwn i ddim yn gweithio. Nawr trwy weithio yma rwy'n gallu adeiladu cartref fy hunan ac anfon arian at fy rhieni yn y Penrhyn dwyreiniol. Mae gen i blentyn sy'n dair a hanner mlwydd oed. Cyn i mi ddechrau gwneud bowlenni a'u gwerthu trwy Wola Nani, roeddwn yn byw gyda fy mrawd, ond roedd yn anodd iawn iddo edrych ar fy ôl i a'm mhlentyn.'

Mae Wola Nani yn helpu pobl sy'n HIV+ i gynnal ei hunain trwy wneud crefftau prydferth allan o ddeunydd lleol - rhubanau gleiniog, gemwaith a bowlenni. Mae Wola Nani yn hyfforddi'r gwragedd ac fe ddatblygwyd busnes llewyrchus trwy werthu'r crefftau yn lleol a thramor. Gwneir y rhubanau gleiniog ar gyfer Diwrnod AIDS y Byd, ac mae gan Wola Nani lawer o archebion i'w cyflenwi. Mae gwisgo rhuban gleiniog yn ffordd o ddangos i eraill eu bod yn cefnogi pobl sy'n HIV+. (Cysylltwch â Tŷ John Penri, cyn gynted a phosib os hoffech archebu rhubanau gleiniog Wola Nani i'ch eglwys.)

Hefyd mae Wola Nani yn trefnu ymgyrchoedd enfawr o gwmpas Diwrnod AIDS y Byd er mwyn herio'r stigma sy'n dal i berthyn i'r afiechyd, a chael mwy o gefnogaeth i'r rhai sydd wedi eu heintio a'u heffeithio. Mae stigma HIV wedi gwella ychydig dros y 10 mlynedd ddiwethaf gan fod mwy bellach yn datgelu eu statws. Hyfforddwyd nifer o wragedd HIV+ gan Wola Nani i roi gofal yn y cartref. Maent yn cael eu talu am hyn, er mwyn ennill bywoliaeth.

Cafodd Wola Nani dipyn o effaith ar fywyd Miriam: 'Mae Wola Nani yn ein helpu ni gyda chyfleoedd am waith. Ry'ch chi'n dod yma, ry'ch chi'n becso, ry'ch chi'n llefain, ond mae'r gefnogaeth a gawn yn wych.' Mae am ddweud wrth gefnogwyr Cymorth Cristnogol: 'Diolch yn fawr am yr help ry'ch chi'n rhoi, a gweddïwch am wellhad llwyr, os gwelwch yn dda.'

Apêl De Affrica

Testun o'r Beibl / nodiadau pregeth

Mae Cymorth Cristnogol yn cynhyrchu adnoddau newydd arbennig iawn ar gyfer gwasanaethau Diwrnod AIDS y Byd bob blwyddyn, sydd ar gael ar: www.christianaid.org.uk/resources/worship_materials/index.aspx (neu cysylltwch â Tŷ John Penri).

Ceir adnoddau ar gyfer eglwysi gan fudiadau eraill, sy'n addas ar gyfer Diwrnod AIDS y Byd, ar y rhyngrwyd. Triwch 'World AIDS Day church resources' neu 'World AIDS Day worship'.

Gweddïau / awgrymiadau am weddi

Gweddïwch dros y rhai o gwmpas y byd sydd wedi eu heintio gan HIV a phawb a effeithir gan y firws – trwy aelod o deulu sy'n sâl neu ffrind neu trwy brofedigaeth.

Gweddïwch dros fudiadau fel Wola Nani sy'n eu helpu hwy.

Gweddïwch dros bawb ohonom, y byddwn yn caru'n agored y rhai sy'n byw gyda HIV, ac yn helpu torri'r stigma a'r ofn sy'n gysylltiedig â'r firws.

Arglwydd bywyd a marwolaeth,
paid â gadael ein breuddwydion fynd yn rhy fach.
Bydded i ni freuddwydio am ddydd pan fydd triniaeth i bawb sydd â HIV.
Bydded i ni freuddwydio am ddydd pan na fydd pobl yn teimlo cywilydd datgelu fod ganddynt HIV.
A bydded i ni freuddwydio am ddydd, rhyw ddydd, pan fydd gwellhad llwyr.
Amen.

Syniadau am godi arian

Yn hytrach na, neu yn ogystal â, eich coeden Nadolig arferol yn y capel eleni, beth am gael coeden Nadolig Diwrnod AIDS y Byd? Rhowch goeden fach fytholwyrdd ym mlaen y capel a gwahoddwch aelodau'r eglwys i dalu swm bach i 'brynu' rhubanau AIDS coch (wedi eu gwneud o ddolenni o ruban coch cyffredin) er mwyn addurno'r goeden.

Gwnewch rubanau AIDS i'w cyfnewid am gyfraniadau i'r apêl, neu cysylltwch â Tŷ John Penri i gael rhubanau gleiniog Wola Nani i'w cyfnewid am gyfraniadau (gan ofyn i bobl rhoi fwy na'u gwerth).

Ysgol Sul

Mae bowlenni Wola Nani wedi gwneud o 'papier -mâché', Ffrangeg am 'papur wedi ei gnoi yn dipiau' oherwydd y ffordd mae'n edrych. Gallech wneud bowlenni yn yr un ffordd, trwy wlychu darnau o bapur newydd neu bapur arall mewn glud wedi ei wneud o flawd a dŵr (cymysgwch un rhan o flawd gyda dwy ran o ddŵr oer, gan arllwys y dŵr i mewn yn araf er mwyn osgoi talpiau o flawd. Ychwanegwch dwy lwy fwrdd o halen fel nad yw'n llwydo) Defnyddiwch naill ai balwn fel mowld neu fowlen arall, wedi ei rhwbio gyda Vaseline fel bod y papier-mâché sych yn dod i ffwrdd yn rhwydd.

Gallech hefyd ddefnyddio glud PVA wedi ei deneuo i ludo'r darnau papur (ni fydd y rhain mor rhwydd i'w paentio), ond peidiwch â defnyddio past papur wal, gan fod ffyngladdwr ynddo a allai fod yn annifyr i'r croen.

Efallai bydd rhai o'r plant wedi dysgu am HIV yn yr ysgol, ond i'r rhai na fyddant, dyma rai pwyntiau syml gellid dweud wrthynt:

- Firws yw HIV (rhywbeth all achosi afiechyd) sy'n rhwystro'r corff rhag ymladd yn erbyn germau.
- Nid yw'n rhwydd i'w ddal – ni allwch ei ddal o disiadau na phesychiadau na chyffwrdd rhywbeth a gyffyrddwyd gan berson arall. Fe allwch gael eich heintio os, e.e. – bod gwaed person a heintiwyd yn mynd mewn i'ch corff, trwy doriad i'r croen.
- Does yna ddim gwellhad llwyr ac unwaith mai person yn HIV, fe fyddant felly am y gweddill o'i bywyd.
- Heb driniaeth, bydd pobl sydd â HIV yn marw oherwydd bod eu cyrff yn methu ymladd yn erbyn afiechydon eraill.
- Er nad oes gwellhad llwyr, mae meddyginiaethau ar gael sy'n helpu pobl i fyw am flynyddoedd lawer, er bod ganddynt HIV.
- Mae llawer yn ofni HIV a'r bobl sydd â HIV, oherwydd nad ydynt yn deall yn iawn. Maent yn credu y byddant hwy yn mynd yn sâl wrth fod yn agos at rywun sydd â HIV, a hyd yn oed marw, er nad yw hynny'n wir.

Gallech sôn am y ffordd yr lesu yn cyffwrdd ac yn iacháu pobl yn y Beibl, yn arbennig y ffordd yr oedd yn iacháu pobl wahanglwyfus. Roedd pobl yr adeg honno yn ofni'r gwahanglwyf yn yr un ffordd ac y mae pobl heddiw yn ofni HIV. Ceir enghraifft yn Luc 5:12-16

Gall **£10** brynu defnyddiau sy'n creu digon o elw o werthiant y bowlenni i anfon wyth o blant oed cynradd i'r ysgol am flwyddyn (ffioedd ysgol a llyfrau).

Gall **£30** brynu defnyddiau sy'n creu digon o elw o werthiant y bowlenni i adeiladu caban i wyth o wragedd fel nad oes rhaid iddynt ddibynnu ar eu teulu estynedig.

Rhifau elusennau cofrestredig y DG: Cymorth Cristnogol 1105851, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 248076.
Rhif cwmni Cymorth Cristnogol 5171525